Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Treffynnon

**Ffordd Pen-y-maes**
**Treffynnon**
**Sir y Fflint**
**CH8 7EN**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod ychydig yn wahanol mewn fformat i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn ag Ysgol Treffynnon

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Treffynnon |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Cymeriad crefyddol | Dd/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 508 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 508 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | Dim chweched dosbarth |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.2%) | 29.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 14.8%) | 27.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.1% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 11/10.2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 20/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/01/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Yn Ysgol Treffynnon, mae staff wedi ymrwymo i sicrhau lles pob disgybl unigol, ac mae hyn yn ganolog i waith yr ysgol. Mae ethos yr ysgol yn seiliedig ar SPIRIT - ysbrydoli hunan-gred (self-belief), dyfalbarhad (perseverance), parch (respect), uniondeb (integrity) ac ymddiriedaeth (trust) disgyblion. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd a'u bod yn barod i ddysgu. Yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, mae gwaith yr ysgol gyda'r gymuned wedi arwain at welliannau sylweddol heb eu dilysu ym mhresenoldeb yr holl grwpiau o ddisgyblion, er bod presenoldeb ar y cyfan yn parhau i fod ychydig islaw lefelau cyn y pandemig. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthnasoedd gweithio cadarnhaol â'u disgyblion ac mae llawer o athrawon yn darparu profiadau dysgu difyr. Mewn llawer o achosion, mae gan athrawon reolaeth ystafell ddosbarth effeithiol, ac o ganlyniad, mae ymddygiad mewn gwersi yn dda, ar y cyfan. Fodd bynnag, dros amser, cafwyd achosion o ymddygiad gwael, sydd wedi achosi i gyfraddau gwaharddiadau'r ysgol fod yn uchel.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ystyriol ac yn cael cymorth medrus gan weddill yr uwch dîm arwain. Maent yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, staff a disgyblion. Er bod amrywiaeth yn ansawdd yr arweinyddiaeth ganol, mae arweinwyr ar bob lefel yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth addas o ansawdd y ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb. Maent yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol, gan ystyried yn ofalus pa ddysgu proffesiynol sydd ei angen. Mae hyn wedi arwain at welliannau nodedig mewn llawer o feysydd pwysig o waith yr ysgol, gan gynnwys presenoldeb, y ddarpariaeth i ddatblygu medrau darllen disgyblion, ac ansawdd yr addysgu. Mae'r ysgol mewn sefyllfa ariannol anodd ac mae ganddi ddiffyg ariannol sylweddol ar hyn o bryd.

Mewn llawer o achosion, mae'r addysgu'n effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus i sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio i feddwl yn ddwfn. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn darparu adborth defnyddiol sy'n helpu disgyblion i wybod sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, yn y gwersi hyn, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mewn lleiafrif o achosion, mae diffygion mewn addysgu, felly nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Yn y gwersi hyn, nid yw disgyblion yn ymgysylltu'n ddigon da â'r gwaith ac nid ydynt yn datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol. Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant buddiol ar gyfer staff ar strategaethau effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a digidol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd a Chymraeg disgyblion wedi'i datblygu'n ddigonol.

## Argymhellion

Mae gennym 4 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Lleihau cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol

A2 Gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddileu'r diffyg yn y gyllideb

A3 Gwella'r ddarpariaeth gynyddol ar gyfer datblygu medrau rhifedd a medrau Cymraeg disgyblion

A4 Gwella'r addysgu mewn lleiafrif o achosion fel bod disgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'r gwaith ac yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a'i effaith ar ymgysylltiad disgyblion a'u dysgu

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn fodelau iaith effeithiol sy'n hyrwyddo defnydd da o eirfa sy'n benodol i bwnc. Maent yn meithrin perthnasoedd gweithio da â disgyblion yn seiliedig ar barch dwyffordd. Mae llawer ohonynt yn cylchu'r ystafell ddosbarth yn rheolaidd i gynorthwyo disgyblion, gan roi adborth defnyddiol iddynt er mwyn eu helpu i wella'u gwaith. Mae eu cyfarwyddiadau'n glir, ac maent yn cyfleu eu disgwyliadau i ddisgyblion ar ofynion cwblhau tasgau. Mae ganddynt arferion sefydledig ac maent yn llwyddo i greu amgylchedd gweithio ysgogol i ddisgyblion ddysgu. Maent yn defnyddio canmoliaeth i annog disgyblion, ac yn rheoli unrhyw achosion o darfu lefel isel yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi.

Mewn llawer o achosion, mae'r addysgu yn effeithiol o ran sicrhau bod pob grŵp o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â gwaith ac yn gwneud cynnydd cadarn. Yn y gwersi hyn, mae athrawon:

- yn cynllunio gwersi ar lefel briodol
- yn cynllunio amrywiaeth addas o dasgau sy'n adeiladu'n dda ar ei gilydd
- yn meddu ar adnoddau defnyddiol sy'n ennyn ac yn cynnal diddordeb disgyblion
- yn sicrhau bod lefel yr her yn briodol a bod cyflymdra'r gwersi yn gweddu'n dda i'r cyflymdra y mae disgyblion yn dysgu arno
- yn holi disgyblion yn briodol i wirio eu dealltwriaeth ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu medrau siarad a gwrando
- yn gweithio mewn partneriaeth â chynorthwywyr i gefnogi disgyblion sydd ag ADY a disgyblion bregus eraill, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd sy'n cyd-fynd â chynnydd eu cyfoedion

Mewn ychydig o achosion lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn sicrhau bod eu holi'n herio disgyblion i feddwl yn ddwfn. Maent yn cynllunio deilliannau dysgu clir ac yn rhannu meini prawf llwyddiant buddiol. Maent yn sicrhau

bod disgyblion yn setlo i weithio'n gloi ac yn cynllunio gwersi hynod ddiddorol, sy'n datblygu chwilfrydedd disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn modelu eu disgwyliadau yn gyson dda ac yn rhannu enghreifftiau effeithiol o waith da. Mae'r athrawon mwyaf effeithiol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael her uchel, ac yn cael cymorth i lwyddo â'r tasgau heriol. Maent yn eu helpu i weld cysylltiadau rhwng cysyniadau allweddol ac yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i addasu eu haddysgu yn ôl yr angen.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Yn y gwersi hyn, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u gwaith, maent yn colli eu canolbwyntio ar adegau, neu'n rhoi i fyny'n hawdd pan mae'r gwaith yn heriol. Pan mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae hyn yn aml oherwydd:

- nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn gwrando ac nid ydynt yn ymyrryd yn ddigon amserol ac effeithiol pan na fydd disgyblion yn ymgysylltu â gwaith neu os ydynt yn tarfu ar lefel isel
- nid yw athrawon yn defnyddio strategaethau priodol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion
- nid oes gan athrawon ddisgwyliadau sy'n ddigon uchel ac nid ydynt yn herio disgyblion yn ddigon da
- mae athrawon yn siarad yn rhy hir ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol
- mae athrawon yn defnyddio cwestiynau sylfaenol yn unig a nid ydynt yn procio dealltwriaeth disgyblion yn ddigon da

Mae gan yr ysgol bolisi asesu wedi'i ddiffinio'n glir gyda phwyntiau asesu rheolaidd, meini prawf llwyddiant ac adborth ar gyfer gwella. At ei gilydd, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol ar waith disgyblion. Pan mae hyn yn fwyaf effeithiol, mae sylwadau athrawon yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar sut i wella ansawdd eu gwaith. Maent yn cynllunio tasgau dilynol effeithiol, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn gwneud yn siŵr fod disgyblion yn ymateb yn briodol. Mae cyflwyno 'marcio â dotiau' yn helpu disgyblion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am wella'u cywirdeb technegol eu hunain, er bod hyn yn cael ei gymhwyso'n anghyson.

Mae adroddiadau interim yn rhoi gwybodaeth addas i rieni am gynnydd a phresenoldeb eu plentyn, a'i agwedd at ddysgu. Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau naratif llawn ar gyfer rhieni sy'n rhoi manylion defnyddiol ar y prif gryfderau a'r targedau ar gyfer gwella ym mhob maes pwnc.

### Cwricwlwm yr ysgol

At ei gilydd, mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ehangder a chydbwysedd priodol i ddisgyblion. Ar hyn o bryd, mae'r ffaith fod cyfnod allweddol 4 yn para tair blynedd yn golygu nad yw disgyblion ym Mlwyddyn 9 yn cael cyfle i astudio ystod lawn o bynciau, ond mae gan yr ysgol gynlluniau ystyriol ar waith i fynd i'r afael â hyn o'r flwyddyn nesaf. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn darparu ystod addas o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer datblygu ei Chwricwlwm i Gymru, ac mae wedi ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid i ffurfio hyn. Mae adrannau wedi mabwysiadu ystod o ddulliau addas, a rhoddir pwyslais cryf ar wella addysgu fel rhan

o ddatblygu'r cwricwlwm. Mae staff yn gweithio gydag ysgolion cynradd partner i sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol, er bod y gwaith hwn yn ei ddyddiau cynnar.

Mae ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol ar gael i ddisgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o glybiau amser cinio ac ar ôl yr ysgol ar gyfer chwaraeon, y celfyddydau perfformiadol, crefftau a TG, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer cymorth â gwaith cartref ac adolygu. Yn ychwanegol, mae athrawon yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o ymweliadau addysgol a gweithgareddau cyfoethogi sy'n ychwanegu at y cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â safleoedd hanesyddol lleol, yn ogystal ag ymweliadau â'r theatr a chyfleoedd i ymweld â busnesau a chyflogwyr lleol.

Mae arweinwyr wedi dechrau datblygu gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru trwy ddathlu digwyddiadau Cymreig fel Diwrnod Santes Dwynwen ac Eisteddfod Ysgol flynyddol. Mae disgyblion yn dysgu caneuon Cymraeg traddodiadol yng ngwersi'r celfyddydau mynegiannol ac mae'r côr yn paratoi ar gyfer dathliad Dydd Gŵyl Dewi. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn gynhwysfawr ac yn helpu disgyblion i ddeall sut i'w cadw eu hunain yn gorfforol ac yn feddyliol iach. Mae'n ymateb i anghenion disgyblion a chyd-destun yr ysgol ac yn gwneud defnydd hynod dda o gysylltiadau ag ystod eang o bartneriaid allanol.

Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddeall hanes a phrofiadau cymunedau pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a'r heriau sy'n wynebu grwpiau bregus eraill fel gofalwyr ifanc. Sefydlwyd clwb wythnosol i gynorthwyo disgyblion sy'n adnabod fel LHDTC+.

### Y ddarpariaeth ar gyfer medrau a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion

### Llafaredd

Mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafaredd trwy holi disgyblion yn ystod trafodaethau dosbarth neu roi cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu syniadau mewn parau neu grwpiau bach. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud mewn gwersi, ac mae mwyafrif ohonynt yn fodlon cyfrannu at drafodaethau ystafell ddosbarth a grŵp. Mae lleiafrif ohonynt yn llunio ymatebion ystyriol i esbonio'u syniadau. Er enghraifft, maent yn siarad yn glir ac yn defnyddio terminoleg bynciol yn gywir wrth esbonio sut gellir datrys rhai problemau mewn trionglau ongl sgwâr gan ddefnyddio naill ai Theorem Pythagoras neu drigonometreg.

Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant gwerthfawr i staff ar sut i ddatblygu medrau llafaredd disgyblion trwy eu hannog i ddefnyddio eu 'llais proffesiynol'. Dyma pryd mae athrawon yn gofyn i ddisgyblion ymestyn a gwella eu cyfraniadau llafar trwy roi mwy o fanylion a defnyddio iaith ffurfiol, gan gynnwys defnyddio terminoleg bynciol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn defnyddio'r strategaeth hon yn effeithiol. Fodd bynnag, mae anghysondeb o ran pa mor dda a pha mor aml y mae athrawon yn defnyddio'r strategaeth hon. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwrando â digon o sylw ar eu hathro neu'u cyfoedion, ac mae cyfran debyg ohonynt yn cynnig ymatebion byr ac annatblygedig yn unig, neu maent yn amharod i gymryd rhan mewn tasgau llafar.

## Darllen

Mae gan yr ysgol strategaethau buddiol i ddatblygu medrau darllen disgyblion mewn Saesneg ac ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, gall llawer o ddisgyblion ddethol a threfnu pwyntiau allweddol o destun. Maent yn anodi ystod o wahanol destunau yn briodol ac yn defnyddio dyfyniadau perthnasol i gefnogi eu safbwyntiau. Er bod ychydig ohonynt yn gwneud hyn yn effeithiol, ac yn integreiddio cyfeiriadau yn hyderus yn eu hysgrifennu, mae lleiafrif o ddisgyblion yn aml yn gwneud hynny mewn ffordd elfennol yn unig. Gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio rhesymu a dod i gasgliad mewn ffordd sylfaenol, er enghraifft wrth ystyried sut caiff anghyfiawnder a phŵer eu cyflwyno yn 'The Maze Runner'. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio'r medr hwn yn graff ac yn ystyriol. Dangosant ddealltwriaeth gadarn o sut mae strwythur testun a defnydd o atalnodi yn effeithio ar y gynulleidfa.

## Ysgrifennu

Darperir ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig. Mae'r mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu ag eglurder a chywirdeb addas. Maent yn defnyddio paragraffu yn briodol i strwythuro'u gwaith. Mae'r disgyblion hyn yn ysgrifennu'n briodol ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, maent yn crynhoi eu canfyddiadau, yn ysgrifennu adroddiadau ac yn ymateb i lenyddiaeth am destunau cyfoes fel newid hinsawdd, defnyddio plastigau a sut mae anifeiliaid yn rheoli eu tymheredd. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn dda, yn mynegi eu hunain yn glir a chan ddefnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddeg a geirfa soffistigedig. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu syniadau'n ddigon llawn yn eu hysgrifennu estynedig. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn aml yn dibynnu gormod ar frawddegau byr a sylfaenol, ac nid ydynt yn amrywio'u harddull ysgrifennu yn ddigonol. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud camgymeriadau sylfaenol yn eu hysgrifennu.

## Rhifedd

Ceir ystod addas o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trin data, a'u dealltwriaeth o siapiau a mesurau. O ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu'r agweddau hyn o rifedd. Maent yn plotio graffiau yn briodol ac yn eu defnyddio i lunio casgliadau synhwyrol, er enghraifft pan fyddant yn dadansoddi graffiau ar gyfer oeri sylweddau mewn gwyddoniaeth. Maent yn gallu darllen a dehongli mapiau a graddfeydd yn briodol mewn daearyddiaeth, ac mewn dylunio a thechnoleg, maent yn dangos amgyffrediad cadarn o gysyniad goddefiant a'r gofyniad i fesur â chywirdeb. Mae ychydig o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhifedd cryf. Maent yn gallu addasu a chymhwyso'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol i ddatrys problemau aml-gam a phroblemau yn seiliedig ar sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Mae tua hanner y disgyblion yn meddu ar amgyffrediad cadarn o rif ac yn trosi rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau yn llwyddiannus. Maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth i ddatrys problemau rhifiadol, er enghraifft pan fyddant yn cyfrifo gwerth buddsoddiadau o dan log syml ac adlog. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau rhif wedi'i datblygu'n ddigonol, o fewn mathemateg nac ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw tua hanner y

disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o rif. Nid oes ganddynt rugldér, ac o ganlyniad, maent yn ei chael yn anodd cymhwyso'u medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

### Medrau digidol

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn addas. Mewn gwersi technoleg gwybodaeth a phynciau perthnasol eraill, mae staff yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu agweddau ar eu cymhwysedd digidol. Er enghraifft, mewn cerddoriaeth, mae disgyblion yn defnyddio meddalwedd i arbrofi ag effeithiau ar eu recordiad o ddarn cyfarwydd o gerddoriaeth ffilm, tra bod disgyblion yn defnyddio taenlenni'n llwyddiannus mewn astudiaethau busnes i ddadansoddi effeithiau gwahanol lefelau o allbynnau ar gostau sefydlog, amrywiol ac unedol. Yn ystod gwersi dylunio a thechnoleg, mae disgyblion yn defnyddio pecyn dylunio 3D i drin delweddau cyn eu torri allan ar dorwyr laser.

### Medrau Cymraeg

Mae mwyafrif y disgyblion yn awyddus i wneud cynnydd yn eu gwersi Cymraeg ac wedi mynegi rhwystredigaeth â'r cyfyngiadau staffio presennol o fewn yr adran. Er gwaethaf y sefyllfa anodd o ran staffio, mae tua hanner y disgyblion yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad i gwblhau'r holl dasgau. Mae'r mwyafrif ohonynt yn meddu ar wybodaeth gadarn am enwau ac ansoddeiriau sylfaenol, a thua hanner ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol wrth gwblhau tasgau cyfieithu. Maent yn defnyddio strwythurau brawddeg syml yn eu gwaith llafar ac ysgrifenedig. Mae ychydig o ddisgyblion yn dechrau defnyddio strwythurau brawddeg mwy cymhleth, gan arbrofi â gwahanol gymalau a mynegi barn. Gall mwyafrif y disgyblion adnabod geiriau syml mewn testun a'u cyfieithu i'r Saesneg. Mae ychydig ohonynt yn dangos medrau darllen cadarn ac yn gallu adnabod geiriau a strwythurau brawddeg mwy cymhleth. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ddisgyblion yr hyder i ymateb yn Gymraeg, ac at ei gilydd, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn datblygu eu medrau Cymraeg dros amser.

### Medrau eraill

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu creadigrwydd yn briodol. Er enghraifft, yn y celfyddydau mynegiannol, mae disgyblion yn gweithio mewn grwpiau i greu a recordio eu rhythmau samba a'u halawon Tsieineaidd byr eu hunain, gan ddewis amrywiaeth addas o offerynnau i'w chwarae. Mewn gwersi Saesneg, mae disgyblion yn ysgrifennu disgrifiadau sydd â'r nod o achosi tensiwn a chyffro, er eu bod weithiau'n cael eu rhwystro wrth wneud hynny gan y diffygion yn eu defnydd o wahanol strwythurau brawddeg. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol. Mewn addysg gorfforol, dangosant fedrau cydsymud a medrau pêl priodol wrth basio a dal pêl fasged. Mae disgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau ymarferol yn llwyddiannus mewn gwahanol bynciau. Er enghraifft, dangosant fedrau modur man datblygedig ac ymwybyddiaeth dda o risgiau iechyd a diogelwch wrth dorri cynhwysion yn ystod gwersi technoleg bwyd.

## Gofal, cymorth a lles

Mae Ysgol Treffynnon yn blaenoriaethu lles ac yn hyrwyddo’i hethos i ysbrydoli hunan-gred, dyfalbarhad, parch, uniondeb ac ymddiriedaeth (SPIRIT) ymhlith ei disgyblion. Mae gwaith yr ysgol gydag asiantaethau allanol yn helpu darparu ystod eang o raglenni ymyrraeth emosiynol. Mae’r tîm bugeiliol yn meddu ar ddealltwriaeth a chydnabyddiaeth gadarn o’r disgyblion a’u teuluoedd, ac yn teilwra’r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion pob plentyn unigol. O ganlyniad, mae’r ysgol yn cynnig amgylchedd diogel, cynhwysol ac anogol lle caiff disgyblion eu hannog i ddatblygu ac aeddfedu â hyder. Er bod gwaith yr ysgol yn y maes hwn wedi bod yn llwyddiannus mewn llawer o achosion, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymddwyn nac yn ymgysylltu â gwaith yn ddigon da.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant diogelu cryf. Mae pob un o’r staff a’r llywodraethwyr yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau ynghylch diogelu ac yn derbyn hyfforddiant rheolaidd. Mae trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn glir ac yn gadarn. Mae’r tîm diogelu yn ymateb i bryderon yn brydlon ac yn ddiwyd ac yn gwneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol i asiantaethau allanol. Maent yn dilyn gweithdrefnau priodol ac yn cynnal cofnod cyfredol o wiriadau i sicrhau addasrwydd staff a phobl eraill i weithio gyda disgyblion. Mae arweinwyr yn ymatebol i faterion cyfredol o ran diogelu ac amddiffyn plant, ac wedi sicrhau darpariaeth a chymorth ar lefel unigol a lefel gwricwlaidd i fynd i’r afael â phryderon presennol, er enghraifft i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymhlith bechgyn. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, ac mae pob un o’r disgyblion yn ymwybodol o’r gweithdrefnau diogelu ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryder.

Mae’r ysgol yn cymhwyso gweithdrefnau gwrthfwlio clir o fewn ei pholisi, ac o ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n rhydd rhag bwlio ac aflonyddu. Pan fydd achosion yn digwydd, mae’r ysgol yn delio â nhw’n effeithiol ac yn effeithlon. Mae bron pob un o’r rhieni o’r farn fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo eu bod yn aelodau gwerthfawr o gymuned yr ysgol.

Mae trefniadau pontio bugeiliol yn gadarn a cheir digonedd o gyfleoedd i ddisgyblion cynradd hŷn brofi diwrnodau rhagflas yn yr ysgol. Un o’r cryfderau nodedig yw’r wythnos bontio yn nhymor yr haf ym Mlwyddyn 6, sy’n cynnwys gwaith cwricwlwm a chwrs preswyl lle mae disgyblion Blwyddyn 7 yn ‘gyfeillion’ er mwyn eu helpu i ymgynefino. Mae arweinwyr yn mynychu adolygiadau Blwyddyn 6 er mwyn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda theuluoedd yn gynnar, ac yn nodi anghenion disgyblion fel rhan o’r trefniadau pontio estynedig ar gyfer disgyblion sydd ag ADY.

Mae’r ysgol wedi datblygu ei darpariaeth yn briodol yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae’r tîm ADY yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion dysgu disgyblion ac yn cydlynu’r ymyriadau sydd ar gael i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn bwrpasol. Mae’r drefn fanwl hon i gynllunio ac olrhain ymyriadau yn rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr i’r gyfadran o’r cynnydd a wna’r disgyblion hyn. O ganlyniad, mae cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo disgyblion yn hyfedr yn y gyfadran ADY ac mewn ystafelloedd dosbarth i hyrwyddo awyrgylch digynnwrf a gofalgar sy’n helpu’r disgyblion hyn i wneud cynnydd cadarn.

Mae arweinwyr wedi cynllunio rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ymatebol ac eang gan ddefnyddio dadansoddiad o holiaduron iechyd a llais y disgybl i sicrhau bod y ddarpariaeth yn unigoledig a pherthnasol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. Mae disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol yn briodol trwy ystod o weithgareddau.

Mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol, sy'n gwella'u hyder a'u creadigrwydd, er enghraifft y clwb gwaith crosio a'r clwb trampolîn. Mae disgyblion y caiff tlodi effaith niweidiol arnynt yn elwa ar raglen gymorth amrywiol, yn cynnwys ffrwythau yn rhad ac am ddim amser prydau bwyd a gweithgareddau allgyrsiol â chymhorthdal.

Mae'r ysgol yn darparu tripiau preswyl a dyddiol sy'n amrywio o ymweliadau diwylliannol i ddigwyddiadau chwaraeon sy'n helpu ehangu profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'n cynnig cyngor ac arweiniad buddiol i gynorthwyo disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus am bynciau, ac yn darparu rhaglen amrywiol o weithgareddau i gynyddu dyheadau disgyblion a'u hymwybyddiaeth o gyfleoedd yn y dyfodol. Mae'r ysgol yn monitro cyrchfannau disgyblion yn fanwl, ac ar hyn o bryd, mae bron pob un o'r disgyblion yn mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae disgyblion o bob cefndir yn ymgymryd â rolau arwain o fewn yr ysgol fel aelodau o'r Cyngor Ysgol neu ar bwyllgorau amrywiol fel grwpiau chwaraeon a'r grŵp eco. Mae'r Cyngor Ysgol wedi ysgogi newidiadau cadarnhaol fel gostwng pris bwyd yn y ffreutur trwy drafod â'r cwmni arlwyo, yn ogystal â datblygu'r ardal y tu allan ar gyfer disgyblion.

Mae arweinwyr yr ysgol yn dadansoddi data ar bresenoldeb yn fforensig ac maent wedi sefydlu ystod o ymyriadau effeithiol mewn partneriaeth â'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwobrau am bresenoldeb rheolaidd a staff yn ymweld â chartrefi i weithio gyda theuluoedd ar annog disgyblion i ymgysylltu o'r newydd ag addysg. Mae hyn wedi arwain at welliant nodedig mewn presenoldeb ar gyfer yr holl grwpiau o ddisgyblion. Mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus wedi gostwng yn sylweddol ac mae'n is na'r hyn a welwyd cyn y pandemig. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae presenoldeb yn parhau i fod ychydig islaw lefelau cyn y pandemig.

Mae polisi ymddygiad cadarnhaol clir ar waith i annog agweddau iach disgyblion at ddysgu. Caiff y polisi hwn ei ddeall a'i gymhwyso gan y rhan fwyaf o staff a'i atgyfnerthu gan dîm o staff cymorth bugeiliol sy'n ymateb yn gyflym i leihau'r tarfu mewn dosbarthiadau. Mae'r 'Ystafell Fyfyrio' a'r cyfleuster eithrio mewnol yn cael eu defnyddio'n briodol, ar y cyfan, i annog myfyrio a gwaith adferol. Caiff y ddarpariaeth hon ei monitro'n ofalus, ac mae'r ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r rhwystrau ar gyfer dysgu sy'n wynebu disgyblion. Fodd bynnag, mae adegau pan gaiff y cyfleuster hwn ei ddefnyddio'n rhy aml gan rai disgyblion, ac o ganlyniad, nid yw eu gwydnwch a'u dyfalbarhad yn eu dysgu wedi'u datblygu'n ddigonol. Ar hyn o bryd, mae gwaharddiadau cyfnod penodol yn hynod uchel, ac mae'r duedd tair blynedd yn dangos eu bod yn cynyddu.

## Arwain a gwella

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i seilio ar ofalu am bawb yng nghymuned yr ysgol, a'u gwerthfawrogi. Mae'n darparu arweinyddiaeth

angerddol ac ymroddgar ac yn fodel rôl cryf sydd â disgwyliadau cryf ohono'i hun, ac o bobl eraill. Caiff ei gynorthwyo'n dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth. Mae rolau a chyfrifoldebau'r tîm wedi'u diffinio a'u deall yn dda. Gyda'i gilydd, maent yn darparu cyfeiriad strategol clir ac wedi sicrhau bod yr ysgol wedi cynnal ac adeiladu ymhellach ar y gwelliannau a welwyd ers tynnu'r ysgol o'r categori mesurau arbennig yn 2019.

Mae uwch arweinwyr wedi nodi blaenoriaethau gwella allweddol yr ysgol yn glir, ac mae'r rhain yn cael eu deall yn dda gan staff. Mae trefniadau rheolaeth llinell yn glir, yn canolbwyntio'n briodol ar ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion, ac yn darparu cydbwysedd buddiol o gymorth a her ar gyfer arweinwyr canol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth addas o'u rôl ac maent yn frwdfrydig am eu gwaith. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad o ran pa mor effeithiol y maent yn cyflawni eu rolau. Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff, gan gynnwys ar gyfer staff cymorth. Cefnogir hyn gan weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd yn addas â blaenoriaethau'r ysgol. Mae staff yn elwa ar gyfleoedd buddiol i rannu arfer dda o fewn ac ar draws meysydd pwnc, a gydag ysgolion eraill.

Mae uwch arweinwyr wedi datblygu calendr tra ystyriol o weithgareddau sicrhau ansawdd sy'n eu galluogi i gasglu tystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys barn disgyblion. Yn y gweithgareddau hyn, mae uwch arweinwyr yn canolbwyntio'n fanwl ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i fonitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella ysgol gyfan. Mae 'Adolygiadau 360' misol yn dechrau helpu arweinwyr i gasglu tystiolaeth hunanwerthuso a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn fwy strategol.

At ei gilydd, mae arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth addas ac eang o'r prif gryfderau a meysydd i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r mwyafrif ohonynt yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o'r agweddau penodol sydd angen eu gwella, ac mae hyn yn eu helpu i osod targedau clir ar gyfer gwella. Mewn tua hanner yr achosion, mae arweinwyr canol yn canolbwyntio'n briodol ar effaith eu darpariaeth ar gynnydd a lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw tua hanner ohonynt yn gwerthuso safonau disgyblion yn ddigon trylwyr na manwl gywir.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol. Maent yn trefnu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion sy'n helpu mynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddysgu. Er enghraifft, maent yn cynnig darpariaeth amgen ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion a'u teuluoedd yn elwa ar gyfle i gael gwisg ysgol a throi at elusennau bwyd lleol. Maent wedi datblygu gweledigaeth sy'n briodol glir ar gyfer eu Cwricwlwm i Gymru ac mae uwch arweinwyr yn cynorthwyo staff i gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi sicrhau darpariaeth gref ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion.

Caiff gwariant grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, ei ddefnyddio'n briodol i sicrhau nad yw disgyblion o aelwydydd incwm isel dan anfantais. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorthdaliadau ar gyfer tripiau addysgol, darparu clwb brecwast am ddim a manteisio ar gymorth sydd ar gael yn y gymuned. Caiff y gwariant hwn ei werthuso'n drylwyr, gan roi sylw priodol i effaith ar les a phresenoldeb disgyblion, a'u boddhad â darpariaeth.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n addas â rhieni, er enghraifft trwy gylchlythyrau a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae arweinwyr wedi cymryd camau addas i gryfhau ymgysylltu â rhieni ymhellach, er enghraifft trwy ddigwyddiadau gyda'r nos i rannu gwybodaeth am gyrsiau TGAU, Cwricwlwm i Gymru a strategaethau adolygu.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn ymgymryd â'u rolau'n frwdfrydig. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o lawer o'r prif gryfderau a heriau sy'n wynebu'r ysgol. Maent yn herio arweinwyr yn briodol mewn cyfarfodydd ac is-bwyllgorau.

Mae'r ysgol mewn sefyllfa ariannol anodd iawn lle mae'r diffyg yn fawr, a rhagwelir y bydd yn cynyddu. Mae ganddi gynllun diffyg trwyddedig cytunedig gyda'r awdurdod lleol. Mae'r rheolwr busnes, y pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn fanwl ac yn glynu at delerau'r drwydded.

At ei gilydd, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar sawl agwedd bwysig ar waith yr ysgol, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, effeithiolrwydd prosesau gwella a chynyddu presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw wedi cael effaith ddigonol ar lefel y gwaharddiadau cyfnod penodol.

## Cydymffurfio statudol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol mewn sefyllfa ariannol anodd iawn lle mae'r diffyg yn fawr, a rhagwelir y bydd yn cynyddu. Mae ganddi gynllun diffyg trwyddedig cytunedig gyda'r awdurdod lleol. Mae'r rheolwr busnes, y pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn fanwl ac yn glynu at delerau'r drwydded.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch ar y safle yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2024